

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Thrive Dental Care, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 16 Medi 2025

Dyddiad cyhoeddi: 17 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Thrive Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 16 Medi 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd 18 o ymatebion gan gleifion a thri ymateb gan y staff. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth naill ai'n dda neu'n dda iawn.'

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad. Cafodd drysau eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac ymgynghoriadau i gynnig preifatrwydd.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r practis ar hysbysfyrddau ac ar wefan y practis. Dywedodd y cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall opsiynau triniaeth a risgiau a manteision yr opsiynau hynny.

Gallai cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ffonio unrhyw bryd a'r nod oedd iddynt gael eu gweld ar yr un diwrnod. Roedd llawr gwaelod y practis yn ymddangos fel petai wedi'i addasu'n dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff gorchuddion priodol eu gosod ar y ffenestri i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Oriau agor cynnar ar ddydd Mawrth ac ar ddydd Iau
- Trefniadau da ar waith ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar, roedd mewn cyflwr da, ac wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn ddaclus ac yn rhydd o beryglon gan gynnig amgylchedd diogel i dderbyn gofal.

Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â defnyddio pelydrau-X yn y practis, ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd y cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng ar gael yn hawdd ac roedd dyddiad defnyddio cyfredol ar bob eitem.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Roedd arweinydd wedi'i benodi ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y pwnc.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu polisi cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau'n addas at y diben
- Sicrhau y caiff larymau synhwyro mwg eu profi bob wythnos a bod hyn yn cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Deintyddfeydd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar gyda chyfarpar sydd mewn cyflwr da
- Roedd y rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir
- Roedd yr ystafell ddihalogi yn drefnus iawn a dangoswyd prosesau da
- Cydymffurfiaeth dda wrth ddefnyddio peiriannau pelydr-X gan gynnwys arwyddion priodol ar ddrysau'r deintyddfeydd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn hawdd i'r staff fynd at y rheolwr cofrestredig, ac roedd y practis yn cael ei redeg yn effeithiol gyda llinellau adrodd clir i'r staff. Roedd y staff yn ymddangos fel petaent yn cael eu cefnogi yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd. Roedd proses recriwtio briodol ar waith a chafodd y gwiriadau angenrheidiol eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y lleoliad.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr a chyfredol ar waith a oedd ar gael yn hawdd i'r staff gael gafael arnynt a nodwyd bod lefelau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau proffesiynol yn dda iawn.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff cofnodion sefydlu eu llofnodi'n briodol ar ôl iddynt gael eu cwblhau
- Ystyried pennu amcanion CAMPUS fel rhan o arfarniadau blynyddol y staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd lefel dda o gydymffurfio â hyfforddiant staff gorfodol
- Roedd cynllun da ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol ar waith fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis
- Hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i gleifion a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 18 o ymatebwyr fod y practis naill ai'n 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Cafodd apwyntiad ar yr un diwrnod ei gynnig pan ffoniais heddiw ac roedd yn datrys fy mhroblem.”

“...ar ôl i'm deintydd blaenorol ymddeol, mae'r gofal wedi gwella'n sylweddol i mi a fy ngŵr. Rwy'n credu ei bod yn llawer haws cael apwyntiad.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod llawer o wybodaeth berthnasol am ofal iechyd deintyddol ar gael yn yr ardaloedd aros i gleifion, gan gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu, gofal ataliol y geg ac ar ddeiet. Roedd hyn yn cynnwys taflenni a hysbysfwrdd trefnus. Roedd costau triniaethau a phroses gwyno'r practis hefyd yn cael eu harddangos. Roedd y practis hefyd yn defnyddio sgrin ddigidol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol a oedd yn newid o un sgrin wybodaeth i'r nesaf.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Roedd y ddwy ddogfen ar gael ar wefan y practis ynghyd â rhagor o wybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaeth.

Roedd enwau'r tîm deintyddol a'u rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn glir. Gwelsom arwyddion ym mhob rhan o'r practis yn rhoi gwybod i'r ymwelwyr nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a'u bod wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn groesawgar ac yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion yn garedig ac â pharch. Er bod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn yr un ystafell, dywedwyd wrthym y gellid cynnal trafodaethau preifat yn y swyddfa neu mewn deintyddfa wag. Roedd polisi cyfrinachedd ar waith ac roedd wedi cael ei lofnodi gan bob aelod o'r staff.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd naill ai wydr barugog neu ffilm di-draidd ar y ffenestri er mwyn cyfyngu ar yr olwg i mewn i ddeintyddfeydd o eiddo cyfagos. Fodd bynnag, gwelsom fod llwybr mynediad i eiddo cyfagos yn galluogi pobl i weld y brif ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn glir. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi gofyn am ddyfynbris ar gyfer gorchudd ffenestr ac roedd yn aros iddo gael ei osod.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gorchuddion priodol eu gosod ar y ffenestri i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod triniaethau a rhoi tystiolaeth i AGC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.

Roedd naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Cytunodd pob un ond un o'r ymatebwyr fod y prisiau wedi'u nodi'n glir cyn iddynt gael triniaeth, a dywedodd un ymatebydd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddo.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion os oedd unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym fod amseroedd aros rhwng triniaethau yn fyr a bod apwyntiadau dilynol yn cael eu cynnig i'r cleifion yn aml o fewn wythnos. Roedd rhestr byr rybudd ar waith i ddefnyddio apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ffonio, anfon e-bost neu drefnu apwyntiad ar-lein unrhyw bryd ac y byddent yn cael eu gweld ar yr un diwrnod fel arfer gan ddefnyddio slotiau apwyntiadau brys wedi'u hamserlenni ar gyfer pob diwrnod. Dywedodd y practis wrthym fod hyn yn cael ei reoli'n dda a oedd yn osgoi'r angen i flaenoriaethu'r achosion mwyaf brys.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn y tu allan i'r safle ac ar wefan y practis. Roedd y rhain yn cynnwys amseroedd agor cynnar ar ddydd Mawrth ac ar ddydd Mawrth ac er mwyn rhoi hyblygrwydd i gleifion. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen triniaeth arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn rhan o rota ar alwad preifat Gwent ar gyfer ceisiadau brys ar benwythnosau.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd dau ymatebydd nad oeddent yn gwybod.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar gyfer cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, roedd siart amlieithog ar gael er mwyn iddynt allu dangos eu dewis iaith, er mwyn gallu trefnu gwasanaeth cyfieithu priodol. Gwelsom hysbysiad yn yr ardal aros i gleifion yn gyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer gwasanaeth Cymraeg.

Er bod cyfleuster trefnu apwyntiadau ar gael, gellid trefnu apwyntiadau hefyd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaeth.

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion gael gafael ar wybodaeth mewn fformatau eraill fel print bras, a dywedodd y staff y byddent yn helpu'r cleifion i ddarllen a chwblhau ffurflenni a dogfennau eraill yn ôl yr angen. Roedd iPads hefyd ar gael

i'w defnyddio gan y cleifion, a oedd yn eu galluogi i wneud dogfennau'n fwy yn ôl yr angen a chafodd system dolen sain ei gosod er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu yn y practis mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion. Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol a pholisiâu bwlio ac aflonyddu a gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar y pynciau hyn. Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu diweddarau yng nghofnodion y cleifion.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Roedd y practis wedi'i leoli ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y safle gydag un deintyddfa ar bob llawr. Roeddem o'r farn bod llawr gwaelod y practis wedi'i addasu'n dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyda drysau llydan, ramp i'r fynedfa flaen, llawr gwastad a thoiled mawr gyda chanllawiau wedi'u gosod. Roedd breichiau ar yr holl seddau yn yr ardal aros er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, bod yr deintyddfeydd yn fawr ac wedi'u goleuo'n dda a bod ganddynt gynllun cyson, a bod yr ardaloedd i gleifion yn gyfforddus, yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda. Dywedwyd wrthym fod y ddwy ddeintyddfa a'r ystafell ddihalogi wedi cael eu gosod yn rheolaidd fel rhan o raglen i adnewyddu'r practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn helpu i sicrhau bod y safle bob amser yn parhau'n addas at y diben.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau'n addas at y diben.

Gwelsom fod trefniadau addas i'r staff newid eu dillad a chaiff eiddo personol eu storio yn yr ystafell staff. Roedd polisi iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff. Roedd yswiriant atebolrwydd y cyflogwr hefyd yn cael ei arddangos fel sy'n ofynnol.

Gwelsom bolisi parhad busnes, ynghyd â rhestr o weithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu gwasanaethau deintyddol yn sgil argyfwng neu drychineb. Roedd hyn yn cynnwys trefniant cyfatebol gyda gwasanaeth deintyddol cyfagos.

Dangoswyd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol cyfredol i ni, a gaiff ei gynnal bob pum mlynedd, cofnodion Profion Offer Cludadwy cyfredol a thystysgrif diogelwch nwy blynyddol dilys.

Gwelsom fod gan y practis contract cynnal a chadw cyfredol ar gyfer yr holl gyfarpar tân, a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ac roedd cyfran addas hefyd wedi cwblhau hyfforddiant wardeiniaid tân. Mae asesiad risg tân wedi'i gwblhau ac roedd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau wythnosol o ymarferion tân rheolaidd, a gwelsom fod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod larymau synhwyro mwg yn cael eu profi bob tua chwe mis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff larymau synhwyro mwg eu profi bob wythnos a bod hyn yn cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Roedd amserlenni glanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol, a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau priodol ar waith a fu'n destun adolygiad blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys enw'r arweinydd penodedig. Gwelsom fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi cael ei gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf, a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar y pwnc hwn.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y lleoliad yn lân iawn a bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ar waith ar gyfer anafiadau offer miniog a bod siartiau llif anafiadau nodwydd ar gael i gyfeirio atynt yn gyflym ym mhob deintyddfa i helpu'r staff pe bai digwyddiad yn codi. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol preifat ar gael i'r practis.

Roedd yr ystafell ddihalogi wedi'i threfnu'n dda ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro. Disgrifiwyd system addas i gludo offer yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth o waith cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau cyfnodol o'r cyfarpar dihalogi yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Roedd gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu. Roedd trefniadau addas ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun y rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar atal a rheoli heintiau.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis a gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer archebu,

gwirio a gwaredu meddyginiaethau a oedd wedi dyddio. Gwelsom fod meddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel a dywedwyd wrthym y rhoddir gwybod am adweithiau andwyol i feddyginiaethau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn. Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd hyn yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd polisi ysgrifenedig priodol a chyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol yn y practis a oedd ar gael i gleifion ar gais. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Roedd system addas ar waith ar gyfer nodi pryd y byddai angen cael meddyginiaethau a chyfarpar newydd a gwnaethom gadarnhau bod yr holl feddyginiaethau yn gyfredol.

Gwelsom fod gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu ar gyfer y silindrau ocsigen wedi cael ei gynnal a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i'w defnyddio. Gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys stoc briodol a bod yr holl eitemau'n gyfredol a bod digon o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael yn ystod gwyliau a salwch staff.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod y ddwy ddeintyddfa ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar clinigol yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da.

Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X, a oedd yn cynnwys asesiad risg ymbelydredd cyfredol. Gwelsom fod arwyddion priodol wedi'u harddangos ar ddrws pob deintyddfa a gwelsom dystiolaeth fod y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei gynnal a'i gadw a'i brofi fel sy'n ofynnol. Gwelsom fod cyfiawnhad ar gyfer pob cysylltiad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y claf a bod rhaglen sicrhau ansawdd briodol ar waith a oedd yn cwmpasu ansawdd delweddau a lefelau dosau.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gynnal archwiliadau pelydr-X wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y ffeiliau staff a welsom.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisi cyfredol addas ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol perthnasol. Er bod siartiau llif diogelu y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael i'r staff, gwnaethom drafod cynnwys y rhain ym mhob deintyddfa er mwyn gallu eu defnyddio'n hawdd pe byddai pryder.

Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ac maent yn meddu ar wybodaeth am brosesau amddiffyn plant ac oedolion, ac roedd y Gweithdrefnau Diogelu Cymru diweddaraf ar gael iddynt. Roedd gan y practis arweinydd diogelu dynodedig a oedd yn gallu rhoi cymorth ac arweiniad i'r staff pe bai ganddynt bryder ynghylch diogelu. Dywedwyd wrthym fod rhagor o gymorth llesiant ar gael i'r staff drwy ddarparu'r iechyd galwedigaethol lleol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y canllawiau statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gofal deintyddol a bod cyngor proffesiynol perthnasol ar gael i'r staff os bydd angen. Gwelsom fod rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith i helpu i sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion cleifion yn cael eu cadw am y cyfnodau priodol o amser yn unol â'r Rheoliadau.

Gwnaethom edrych ar sampl o chwe chofnod gofal deintyddol ar gyfer amrywiaeth o gleifion. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod ansawdd cofnodion y cleifion yn dda a bod dynodyddion cleifion addas a rhesymau dros yr apwyntiad yn cael eu cofnodi. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn cynnwys hanes meddygol llawn ac roeddent yn nodi bod hyn yn cael ei wirio ym mhob apwyntiad dilynol. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gan gynnwys opsiynau ar gael, a bod cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i dderbyn gan gleifion cyn bob triniaeth. Gwelsom fod dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi'n gyson.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith, gyda'r prif ddeintydd a rheolwr y practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd gyda chymorth y nyrs arweiniol a tîm ehangach y practis. Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod aelodau'r tîm rheoli yn barod iawn i siarad â'r staff ac roedd yn hawdd mynd atynt.

Roedd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a hysbysiadau diogelwch brys â'r staff drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd a negeseuon e-bost. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw o gyfarfodydd a'u bod yn cael eu rhannu ag aelodau o staff a oedd yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi'u darllen.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rolau. Roedd hyn yn cynnwys polisi chwythu'r chwiban i gynghori'r staff pe bai angen iddynt godi pryder. Roedd yr holl bolisiau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda chofrestr wedi'i lofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau.

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo ac roeddent yn cytuno bod y practis yn gweithredu'n gadarnhaol o ran iechyd a llesiant y staff. Roedd pob un yn cytuno bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael iddynt yn y gweithle, ac roeddent yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Tîm gwych i weithio ynddo. Rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi ac rwy'n mwynhau dod i'r gwaith.”

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Mae tri deintydd, un therapydd a phum nyrs ddeintyddol yn nhîm y practis. Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chyflogi staff yn y practis deintyddol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod proses sefydlu addas ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r practis a'u bod yn gymwys i gyflawni eu rôl. Fodd bynnag, er ein bod wedi gweld tic ar y ddogfennaeth sefydlu, nid oedd y cyflogwr na'r cyflogai wedi ei llofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion sefydlu eu llofnodi'n briodol ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys, tystiolaeth o yswiriant indemniad, a chofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystiolaeth o imiwneiddiadau Hepatitis B a chofnodion sgrinio iechyd eraill i'w gweld ar gyfer pob aelod o'r staff. Cawsom wybod bod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r gweithlu yn cael ei monitro gan dîm rheoli'r practis.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Gwelsom fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda, ac roedd rheolwyr y practis yn monitro hyn. Roedd adolygiad o ffeiliau'r staff yn nodi bod y staff yn cael arfarniadau blynyddol ond nad oedd amcanion clir ynddynt i annog gwelliant a datblygiad unigolion.

Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ystyried gosod amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) ar gyfer pob aelod o'r staff fel rhan o'u proses arfarnu blynyddol.

Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl a'u bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys holiaduron boddhad yn cael eu dosbarthu ar ôl pob apwyntiad. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn yr ardal aros i alluogi cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol i roi adborth yn ddiennw.

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Yn ystod yr arolygiad, roedd ymateb cadarnhaol i'r adborth y gwnaethom ei roi, a gwelsom dystiolaeth fod yr ymrwymiad hwn yn cynnwys sylwadau gan gleifion gyda hysbysiad 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i gleifion.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd hyn yn nodi'r aelod o staff a oedd wedi'i benodi i ymdrin â chwynion, ac yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt os nad oedd yn fodlon ar yr ymateb. Gwnaethom edrych ar y ffolder cwynion a gwelsom fod pob cwyn yn cael ei dogfennu a'i bod yn dilyn yr amserlenni a nodir yng ngweithdrefn y practis. Gwelsom fod rhai negeseuon e-bost sy'n gysylltiedig â chwynion yn cael eu cadw mewn cyfrifon e-bost. Gwnaethom drafod y buddion o sicrhau bod tystiolaeth o weithgarwch cyfathrebu yn cael ei chadw mewn un lle i hwyluso adolygiadau ac arolygiadau yn y dyfodol.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod cynllun da ar gyfer archwiliadau ar waith fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Rhoddwyd enghreifftiau i ni sydd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar gan gynnwys cofnodion clinigol, rhagnodi gwrthfotigau ac ansawdd radiograffau. Dywedwyd wrthym fod archwiliad rhoi'r gorau i smygu wedi'i gynllunio i'w gynnal yn fuan.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnoddau a chyfarpar gwella ansawdd a gydnabyddir gan y diwydiant i helpu i wella safonau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Thrive Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 16 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Thrive Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 16 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod llwybr mynediad i eiddo cyfagos yn galluogi pobl i weld y brif ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn glir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gorchuddion priodol eu gosod ar y ffenestri i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod triniaethau a rhoi tystiolaeth i AGC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.	Rheoliad 15(1)	Cafwyd dyfynbris gan y cwmni. Rydym yn aros i waith ar yr eiddo drws nesaf gael ei gwblhau er mwyn cyflawni hyn.	Laura Channing/ Dr Richard Crean	Ar ôl i waith adeiladu gael ei gwblhau drws nesaf.
Nid oedd polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu	Rheoliad 8(1)(c)	Caiff y polisi ei gwblhau â	Laura Channing	Pythefnos

mwyn helpu i sicrhau bod y safle bob amser yn parhau'n addas at y diben.	polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau'n addas at y diben.		Laura a Richard		
Dywedwyd wrthym fod y larymau synhwyro mwg yn cael eu profi pob tua chwe mis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff larymau synhwyro mwg eu profi bob wythnos a bod hyn yn cael ei gofnodi mewn cofnodlyfr.	Rheoliad 22 (4)(a)	Caiff rhestr wirio ei chwblhau bob wythnos gan wirio pob larwm synhwyro mwg	Laura Channing	Wedi'i gwblhau
Er ein bod wedi gweld tic ar y ddogfennaeth sefydlu, nid oedd y cyflogwr na'r cyflogai wedi ei llofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion sefydlu eu llofnodi'n briodol ar ôl iddynt gael eu cwblhau.	Rheoliad 17(3)(a)	Llofnodi pob dogfen sefydlu, ar ôl iddi gael ei chwblhau	Laura Channing	Wedi'i gwblhau
Gwelsom fod y staff yn cael arfarniadau blynyddol ond nad oedd amcanion clir ynddynt i annog gwelliant a datblygiad unigolion.	Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ystyried gosod amcanion CAMPUS ar gyfer pob aelod o'r staff	Rheoliad 17(4)	Rhoi nodau CAMPUS i mewn i'r gwaith papur un i un i'r	Laura Channing	Wedi'i gwblhau

fel rhan o'u proses arfarnu blynyddol.	staff eu cwblhau.
---	----------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Laura Channing

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 06/10/2025